



Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 4



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 6.)

Yn ôl yng Nghaerddinas. Mae Gwyn Thomas, rheolwr Caerddinas, yn edrych ar fideo'r gêm yn erbyn San Germano yn Ystafell y Rheolwr yn y clwb. Mae Megan ei wraig yn dŵad i mewn.

- Megan: Edrych ar y fideo rwyd ti?
- Gwyn: Ia. Tair gôl i un. Dw i ddim yn dallt.
- Megan: Wedi blino roedd yr hogiau?
- Gwyn: Naci.
- Megan: Y gwres oedd y broblem?
- Gwyn: Naci. Mae 'na rywbeth arall. Ddoe ges i fy ngeni? Naci.
- Megan: Pryd mae'r ymarfer?
- Gwyn: Am saith...ymhen chwarter awr. Dw i'n clywed sŵn car . Pwy sy 'na? Derbyshire?
- Megan: Naci. Dw i ddim yn nabod y car.
- Gwyn: Car glas ydy o?
- Megan: Naci. Car coch Alfa Romeo.
- Gwyn: Alfa Romeo?
- Megan: Derbyshire sy'n dŵad allan.
- Gwyn: Car newydd, mae'n rhaid.

Megan: Mae'r lleill yn dŵad ...Derbyshire ...Griffiths... Michael Jones ...Medwin Hughes... ac mae 'na ddyd arall.

Gwyn: (Yn dal i edrych ar y fideo) Mae'n rhyfedd, tydi?

Megan: Be', cariad?

Gwyn: Edrycha ar y fideo . Griffiths sy â'r bêl... Mae o'n pasio i Howells ond mae Howells yn baglu ac yn colli'r bêl. Edrycha eto yma. Griffiths sy â'r bêl... Mae o'n pasio i Howells ond mae Howells yn baglu ac yn colli'r bêl. Mae 'na batrwm.

Megan: Mae'r dyn 'na yn dŵad i fyny i'r swyddfa.

Mae 'na gnoc ar y drws.

Gwyn: Dowch i mewn!

Larry Day: Larry Day, newyddiadurwr.

Gwyn: Chi sy'n gweithio i'r Weekly Herald?

Larry Day: Ia.

Gwyn: Isio stori dach chi?

Larry Day: Naci. Mae gen i stori, Mr Thomas. Dw i isio gweithio efo chi i ddatblygu stori well!

Geirfa

Newyddiadurwr – a journalist

Datblygu – to develop

Y lleill – the others